# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd R Williams**

**Ward: Pen-coed a Phen-prysg**

## Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2008, 2012 a 2022. Rwyf wedi cyflawni sawl rôl yn y Cyngor, gan gael fy mhenodi ar dri phwyllgor, gan fynychu 37 o gyfarfodydd Pwyllgor a Chyngor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 23 o faterion cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor, yn ogystal â materion anffurfiol eraill a ddaeth i'm sylw.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd, rwyf wedi bod yn bresennol mewn rhyw 42 o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward. |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Rwyf wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â disodli pont reilffordd Pen-prysg ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Rwyf hefyd wedi bod yng nghyfarfodydd Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda'r bwriad o ddisodli Ysgol Gyfun Pencoed.<br><br>Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd a oedd yn ymwneud â'r caeau rygbi, y cyfleusterau a'r Clwb Rygbi.<br><br>Rwyf wedi meithrin cysylltiadau cryf â Chyngor Cymuned Uwch Llangrallo er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y pentref, ac wedi mynd i gyfarfodydd misol.<br><br>Ymhlith y materion a drafodwyd roedd gwasanaethau bysiau gwael, diffyg llwybrau teithio diogel a ffensys wedi'u torri, (mae rhai o'r rhain wedi'u disodli erbyn hyn). Tynnwyd sylw hefyd at Glymog Japan ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Rwyf hefyd wedi cysylltu â Chyngor Tref Pen-coed, yr wyf yn aelod ohono. Mae rhai o faterion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi eu trosglwyddo i mi gan Glerc y Dref. |

Rwyf wedi bod yn bresennol mewn cymorthfeydd a drefnwyd gan AS San Steffan ac AS Cymru er mwyn cynorthwyo i ddatrys problemau lleol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Roeddwn yn bresennol yn nau o gyflwyniadau Cenin ynghylch adeiladu fferm wynt a chyfleuster solar yn Heol-y-cyw/Bryncethin. Rwyf wedi gwrando ar y trigolion am eu pryderon am brosiect mor fawr yn eu cyffiniau.

Rwyf wedi trafod gwelliannau i ardal chwarae plant gyda phreswylwyr. Nid yw'r ardal chwarae yn eiddo i unrhyw Gyngor/yn cael ei reoli gan unrhyw Gyngor.

Rwyf wedi ateb nifer o ymholiadau ynghylch gosod ceblau rhyngrwyd newydd drwy'r ward a'r problemau sydd wedi codi.

**Gweithgareddau/ Materion Eraill**

Rwy'n cynnal teithiau cerdded ledled y ward er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n gofyn am atgyfeiriad a chael trafodaethau/galwadau ffôn i ganfod anghenion y gymuned.

Mae nifer o drigolion wedi sôn am broblemau parcio mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Pen-coed, yn enwedig y rhai sy'n agos at yr ysgol. Mae hwn yn bwnc eithaf emosiynol.

**Y Cynghorydd R Williams:** **Dyddiad: 30 Mehefin 2023**